# Adroddiad Arolygu Gofal Plant ar gyfer

**Meithrinfa Ddydd Toybox**

**Heol Kelsterton**
**Cei Connah**
**Glannau Dyfrdwy**
**CH5 4BR**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cyhoeddi

**28 Tachwedd 2018**

***Welsh Government © Crown copyright 2018.***
*You may use and re-use the information featured in this publication (not including logos) free of charge in any format or medium, under the terms of the Open Government License. You can view the Open Government License, on the National Archives website or you can write to the Information Policy Team, The National Archives, Kew, London TW9 4DU, or email: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*You must reproduce our material accurately and not use it in a misleading context.*

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Mae Meithrinfa Ddydd Toybox wedi'i lleoli ar dir Coleg Cambria yng Nghei Connah. David Jones yw'r person cofrestredig ac Ann Johnson yw'r person â chyfrifoldeb am redeg y gwasanaeth o ddydd i ddydd.  Rhoddir gofal rhwng 8:00 a 17:45, o ddydd Llun i ddydd Gwener, ac eithrio gwyliau'r banc a dros y Nadolig. Mae’r gwasanaeth yn cynnig lleoedd i blant tri mis i bum mlwydd oed. Mae lleoedd wedi eu hariannu ar gael i blant fel rhan o Hawl Bore Oes. Mae'r gwasanaeth wedi ei gofrestru i ofalu am 106 o blant.

Saesneg yw'r brif iaith. Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg’.

## Crynodeb o'n canfyddiadau

### 1. Asesiad cyffredinol

Arolygiad â phwyslais penodol oedd yr arolygiad hwn a ganolbwyntiodd ar rai elfennau llesiant, gofal a datblygiad, amgylchedd ac arweinyddiaeth a rheolaeth. I gael rhagor o wybodaeth, gweler yr adroddiad arolygu blaenorol.

### 2. Gwelliannau

Ers yr arolygiad diwethaf, mae'r gwasanaeth wedi cael offer trydanol newydd, wedi cael ei ailaddurno, mae system larwm dân newydd wedi'i osod a dodrefn ac adnoddau wedi'u prynu.

### 3. Gofynion ac argymhellion

Ni nodwyd unrhyw argymhellion arfer da y tro hwn.

# 1. Llesiant

### Crynodeb

Gan mai arolygiad â phwyslais penodol oedd hwn, ni wnaethom arolygu'r thema hon yn llawn a gwnaethom ganolbwyntio ar y canlynol; i ba raddau y mae'r plant yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus, a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi, ac i ba raddau y mae'r plant yn hoffi eu chwarae a'u dysgu. I gael rhagor o wybodaeth, gweler yr adroddiad arolygu blaenorol.

### Ein canfyddiadau

### 1.1 I ba raddau y mae gan blant lais?

Roedd hwn yn arolygiad â phwyslais penodol, felly ni wnaethom arolygu'r maes allweddol hwn y tro hwn.

### 1.2 I ba raddau y mae plant yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus, a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi?

Mae'r plant wedi ymlacio ac yn hapus.

Roedd y plant yn fodlon ac yn hapus. Roeddent yn crwydro'r ardaloedd a'r cyfleoedd chwarae oedd ar gael yn hyderus ac yn ddirwystr. Roedd dau blentyn yn eistedd yn hapus yn y gornel lyfrau, yn gorwedd ar y llawr yn rhannu stori. Dim ond yn ddiweddar y dechreuodd rhai o'r plant ac roeddent braidd yn bryderus. Cawsant gysur a chefnogaeth gan y staff a'r plant eraill ac yn fuan iawn roeddent wedi ymlacio ac yn hapus. Roedd y plant yn gyfarwydd â'r staff ac wedi meithrin cydberthnasau cadarnhaol â nhw. Roeddent yn gwybod neu'n dysgu'r arferion dyddiol ac yn gwybod yr hyn a ddisgwylir ganddynt. Gwnaeth hyn iddynt deimlo'n ddiogel a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi. Roedd y plant yn elwa o fod mewn awyrgylch a oedd yn dawel ac amgylchedd lle maent yn cael cefnogaeth ac yn dathlu cyflawniadau, gan eu helpu i deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi.

Mae'r plant yn teimlo'n hapus, yn ddiogel a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi mewn amgylchedd cefnogol a thawel.

### 1.3 Pa mor dda y mae plant yn rhyngweithio?

Roedd hwn yn arolygiad â phwyslais penodol, felly ni wnaethom arolygu'r maes allweddol hwn y tro hwn.

### 1.4 I ba raddau y mae plant yn mwynhau chwarae a dysgu?

Mae'r plant yn brysur ac wedi ymgolli yn eu dewis o weithgaredd.

Roedd y plant yn dewis ble yr hoffent chwarae. Roeddent yn hapus i ymuno â gweithgareddau dan arweiniad oedolion. Er enghraifft, adeg amser canu, roedd modd i'r plant yn yr ystafell pili-palod eistedd a chanolbwyntio ar y gweithgaredd. Roeddent yn gwenu ac yn mwynhau ymuno â'r caneuon a'r ystumiau i gyd-fynd â'r caneuon hynny. Roedd plentyn arall yn awyddus i ddangos beth roeddent yn ei wneud â'r offer yn y blwch offer. Roeddent yn chwilio o gwmpas ardaloedd yn dod o hyd i sgriwiau a hoelion ac yn esgus trwsio pethau. Roedd pob un o'r plant yn frwd ac yn hapus i gymryd rhan mewn gweithgaredd neu dasg. Yn ystafell y babanod, roedd un babi'n mwynhau ar y mat chwarae babanod. Gwnaethant fwynhau archwilio'r gwahanol ddarnau o offer o'u blaenau.

Mae'r plant yn mwynhau eu cyfleoedd chwarae a dysgu.

### 1.5 Pa mor dda y mae plant yn datblygu, yn dysgu ac yn dod yn annibynnol?

Roedd hwn yn arolygiad â phwyslais penodol, felly ni wnaethom arolygu'r maes allweddol hwn y tro hwn.

## 2. Gofal a Datblygiad

### Crynodeb

Gan mai arolygiad â phwyslais penodol oedd hwn, ni wnaethom arolygu'r thema hon yn llawn a gwnaethom ganolbwyntio ar y canlynol; pa mor dda y mae ymarferwyr yn cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. I gael rhagor o wybodaeth, gweler yr adroddiad arolygu blaenorol.

### Ein canfyddiadau

### 2.1 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn cadw plant yn ddiogel ac yn iach?

Mae'r staff yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau.

Roedd y staff yn deall y weithdrefn diogelu ac yn gwybod beth i'w wneud pe byddai ganddynt unrhyw bryderon am blentyn. Roedd ymarferion tân rheolaidd yn cael eu cynnal ac roedd y staff a'r plant yn gwybod beth i'w wneud mewn argyfwng. Roedd y staff yn cyflawni gweithdrefnau effeithiol o newid cewynnau sy'n helpu i atal germau rhag lledaenu. Hefyd, gwnaethant sicrhau fod byrddau'n cael eu glanhau cyn eu defnyddio i gael bwyd, ac roedd y plant yn cael eu hannog a'u helpu i olchi eu dwylo cyn bwyta ac ar ôl defnyddio'r toiled. Darparwyd prydau a byrbrydau iachus. Er enghraifft, rhoddwyd tost ac amrywiaeth o ffrwythau i'r plant gael byrbryd gyda diod o laeth neu ddŵr. Nodwyd alergeddau a'u harddangos yn yr un ystafell â'r plant i sicrhau bod pawb yn ymwybodol ohonynt ac yn eu deall. Roedd y staff yn sicrhau bod y plant yn cael cyfleoedd i wneud ymarfer corff a chael awyr iach drwy gydol y dydd.

Mae'r staff yn effeithiol o ran cadw plant yn ddiogel ac yn iach, gan eu bod yn sicrhau eu bod yn gwbl ymwybodol ac yn gweithredu polisïau a gweithdrefnau cadarnhaol.

### 2.2 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn rheoli’r rhyngweithio?

Roedd hwn yn arolygiad â phwyslais penodol, felly ni wnaethom arolygu'r maes allweddol hwn y tro hwn.

### 2.3 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn hybu chwarae, dysgu a datblygiad plant, ac yn diwallu eu hanghenion unigol?

Roedd hwn yn arolygiad â phwyslais penodol, felly ni wnaethom arolygu'r maes allweddol hwn y tro hwn.

## 3. Yr Amgylchedd

### Crynodeb

Gan mai arolygiad â phwyslais penodol oedd hwn, ni wnaethom arolygu'r thema hon yn llawn a gwnaethom ganolbwyntio ar y canlynol; pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel a pha mor dda y mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn addas. I gael rhagor o wybodaeth, gweler yr adroddiad arolygu blaenorol.

### Ein canfyddiadau

### 3.1 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel?

Mae’r arweinwyr yn sicrhau y caiff yr holl archwiliadau ac asesiadau perthnasol eu cynnal.

Gwnaeth yr arweinwyr sicrhau bod y fynedfa i'r gwasanaeth yn ddiogel. Gwnaeth contractwyr a oedd yn cwblhau gwaith ar y safle ddefnyddio mynedfa wahanol nad oedd yn cael ei ddefnyddio gan y plant na'r rhieni. Roedd asesiadau risg wedi cael eu cynnal ac wedi cael eu diweddaru'n ddiweddar i adlewyrchu'r gwaith a wnaed ar ôl y tân diweddar. Mae system teledu cylch cyfyng (CCTV), gwaith gwifro a blychau ffiwsiau newydd wedi cael eu gosod.

Mae'r arweinwyr yn darparu amgylchedd diogel.

### 3.2 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn addas?

Mae’r arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn addas i'r plant i gyd.

Roedd arweinwyr wedi sicrhau bod pob ardal yn lân ac yn cael ei chynnal a'i chadw'n dda. Roedd y feithrinfa wedi cael ei hailaddurno yn ddiweddar ac roedd gan y rhan fwyaf o ardaloedd ac ystafelloedd loriau a nenfydau newydd, gan greu amgylchedd glân a chroesawgar. Roedd cynlluniau i newid gweddill y lloriau a'r nenfydau yn ystod yr hanner tymor sydd i ddod. Roedd yr ystafelloedd a ddefnyddiwyd gan y plant yn agored ac roedd digon o le iddynt chwarae a dysgu'n ddiogel.

Roedd yr arweinwyr wedi darparu ardal awyr agored ag arwyneb meddal i'r plant. Drwy hyn, roedd y plant yn cael y cyfle i ymarfer corff a chael awyr iach mewn lle ysbrydoledig, gyda chyfarpar sy'n briodol i oedran y plant.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd wedi'i addurno'n dda ac mewn cyflwr da, a bod awyrgylch cynnes a chroesawgar.

### 3.3 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau bod yr adnoddau a’r cyfarpar o ansawdd?

Roedd hwn yn arolygiad â phwyslais penodol, felly ni wnaethom arolygu'r maes allweddol hwn y tro hwn.

# 4. Arwain a Rheoli

**Crynodeb**

Gan mai arolygiad â phwyslais penodol oedd hwn, ni wnaethom arolygu'r thema hon yn llawn a gwnaethom ganolbwyntio ar y canlynol; pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth. I gael rhagor o wybodaeth, gweler yr adroddiad arolygu blaenorol.

**Ein canfyddiadau**

### 4.1 Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth?

Mae'r arweinyddiaeth yn effeithiol.

Roedd y datganiad o ddiben yn cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol a pherthnasol. Roedd polisïau a gweithdrefnau ar waith ac roedd y rhain wedi'u hymgorffori yn ymarferol. Roedd arweinwyr, yn enwedig y person â gofal, yn chwarae rhan weithredol wrth redeg y gwasanaeth. Roedd ganddynt ddealltwriaeth glir a da o'r gwasanaeth a'r gofal a ddarperir. Roedd yr arweinwyr yn cefnogi pob aelod o'r staff a gwnaethant sicrhau bod yr amgylchedd yn cael ei hadnewyddu'n gyflym, ond yn effeithiol, i sicrhau cyn lleied o darfu â phosibl ar ôl tân yn ddiweddar.

Mae gan yr arweinwyr ddealltwriaeth glir o'r gofal a'r gwasanaeth a ddarperir. Mae hyn yn eu helpu i'w redeg yn ddidrafferth ac yn gweithredu'n effeithlon.

### 4.2 Pa mor effeithiol yw'r gwaith o hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella?

Roedd hwn yn arolygiad â phwyslais penodol, felly ni wnaethom arolygu'r maes allweddol hwn y tro hwn.

### 4.3 Pa mor effeithiol y mae ymarferwyr, staff ac adnoddau eraill yn cael eu rheoli?

Roedd hwn yn arolygiad â phwyslais penodol, felly ni wnaethom arolygu'r maes allweddol hwn y tro hwn.

### 4.4 Pa mor effeithiol yw partneriaethau?

Roedd hwn yn arolygiad â phwyslais penodol, felly ni wnaethom arolygu'r maes allweddol hwn y tro hwn.

## 5. Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

### 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Dim

### 5.2 Argymhellion ar gyfer gwella

Ni wnaed unrhyw argymhellion y tro hwn.

## 6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Arolygiad dirybudd oedd hwn a gynhaliwyd ar ôl i bryder gael ei godi mewn perthynas ag addasrwydd yr amgylchedd a diogelwch y plant ar ôl dychwelyd i'r safle cofrestredig yn dilyn tân. Ymwelodd un arolygydd â'r gwasanaeth ar 4 Hydref 2018 rhwng 8:50 a 10:50.

Gwnaethom:

- arolygu asesiadau risg a thân a'r amgylchedd, gan ystyried y gwaith a gwblhawyd a'r gwelliannau a wnaed;
- arsylwi ar rywfaint o arfer a chasglu tystiolaeth o'r plant yn ymgysylltu â'r gofal a ddarperir gan y staff;
- siarad â'r plant, y person â chyfrifoldeb a rhai aelodau o'r staff;
- trafod y pryder a godwyd gyda'r person â chyfrifoldeb a rheolwr yr eiddo, a
- rhoi adborth i'r person â chyfrifoldeb.

Ceir gwybodaeth bellach am yr hyn rydym yn ei wneud ar ein gwefan: www.arolygiaethgofal.cymru

## Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| **Y math o ofal a ddarperir** | **Gofal Dydd Plant**<br>**Gofal Dydd Llawn** |
| **Unigolyn Cyfrifol** | **David Jones** |
| **Person â chyfrifoldeb** | **Ann Johnson** |
| **Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd** | **106** |
| **Ystod oedran y plant** | **3 mis – 5 mlwydd oed** |
| **Oriau agor** | **Rhwng 8:00 a 17:45 o ddydd Llun i ddydd Gwener** |
| **Iaith weithredol y gwasanaeth** | **Saesneg** |
| **Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru** | **14 Chwefror 2018** |
| **Dyddiad yr ymweliad(au) arolygu** | **04 Hydref 2018** |
| **A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg?** | **Na** |
| **A yw'r gwasanaeth yn darparu addysg blynyddoedd cynnar ar gyfer plant tair a phedair oed?** | **Ydy** |
| **A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?** | **Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'r gwasanaeth wedi'i leoli mewn ardal Saesneg ei hiaith yn bennaf, ond cyflwynwyd geiriau Cymraeg sylfaenol i'r plant yn ystod y sesiwn.** |
| **Gwybodaeth Ychwanegol:** | |